Gwe pry cop

Maint y Grŵpiau:

8 disgybl y grŵp

Adnoddau:

- Pelen o wlân
- Llungopi o'r cardiau rôl ar y dudalen nesaf, ar gerdyn yn ddelfrydol. Defnyddiwch glipiau papur i'w gosod ar siwmperi'r disgyblion fel bod pawb yn gallu gweld.

Gweithgaredd:

- Bydd pob disgybl yn derbyn rhywogaeth o'r fforest law neu nodwedd gorfforol bwysig
- Mae'r disgyblion yn sefyll mewn cylch, ac yn cymryd eu tro i ddarllen gwybodaeth am eu rôl yn uchel.
- Mae'r disgyblion eraill yn gwrando'n astud.
- Rhowch belen fawr o gortyn i un o'r disgyblion. Rhaid iddynt ganfod person arall sy'n gysylltiedig â nhw e.e. "Eleffant y goedwig ydw i ac rwy'n defnyddio'r goeden eboni fel polyn crafu"
- Mae'r disgybl hwnnw'n cydio'n dynn ym mhen y llinnyn ac yn trosglwyddo'r belen gyfan i'r person maent wedi cysylltu â nhw.
- Rhaid i'r person sydd nawr yn dal y belen o gortyn ganfod ac esbonio am gyswllt arall. Yna maent yn cydio yn eu darn nhw o'r cortyn, ac yn taflu'r belen i'r cyswllt newydd
- Mae'r broses yn parhau tan eu bod wedi ffurfio gwe (mae'n gweithio'n well os yw pawb yn cael y belen wlân fwy nag unwaith)
- Gofynnwch i bawb aros yn llonydd a gofynnwch i un o'r disgyblion symud ei fys i ddangos sut mae pob rhan wedi cysylltu â'i gilydd.

Awgrym:

Gallwch ofyn i'r disgyblion beth fyddai'n digwydd pe byddai un cysylltiad yn cael ei dorri.

Maint Cymru - Pecyn Addysg CA2

Y glaw ydw i Rwy'n darparu dŵr ar gyfer y planhigion a'r anifeiliaid. Maent fy angen i i fyw, ond rwyf hefyd yn gallu golchi'r daioni o'r pridd sy'n ei wneud yn anodd i rai coed dyfu. Rwy'n gwneud yr aer yn llaith iawn.	**Eryr cribog ydw i** Rwy'n un o'r eryrod mwyaf yn y byd. Y fforest law yw fy nghartref, ond rwyf bron wedi diflannu'n llwyr, gan bod fy nghynefin yn cael ei ddinistrio gan bobl sy'n torri coed mewn modd anghynaladwy.
Eliffant y goedwig ydw i Rwy'n bwyta dail a rhisgl llawer o wahanol goed a llwyni. Rwy'n hoffi ffrwythau, yn enwedig ffrwyth melynwyrdd y goeden makore. Rwy'n cyflawni swyddogaeth bwysig iawn wrth ledaenu hadau coed.	**Torrwr coed ydw i** Rwy'n gweithio i gorfforaeth ryngwladol. Rwy'n torri coed, ond rwy'n cynhyrchu'r pethau mae pobl eu hangen megis celfi a phapur.
Coeden eboni ydw i Mae fy mhren yn werthfawr. Mae yna holltau yn fy rhisgl du, ac mae'r eleffantod yn ei ddefnyddio fel postyn crafu. Dyma pam mae'r trigolion lleol hefyd yn fy ngalw i'n 'crib yr eliffantod'. Rwy'n cynhyrchu ocsigen sy'n hanfodol ar gyfer pob peth byw. Rwy'n rhan o'r hyn a ddisgrifir weithiau fel 'ysgyfaint y ddaear'.	**Rwy'n arweinydd llwyth brodorol o'r fforest** Rwy'n byw mewn pentref yn y fforest law. Mae'r coed yn cael eu torri bod pobl yn gallu cael cnydau gwerthu fel megis planhigion olew palmwydd ac arian o amaethyddiaeth. Mae hyn yn ei wneud yn anodd i ni fyw ar adnoddau'r fforest.
Planhigyn olew palmwydd ydw i Rwy'n un o blanhigion cynhenid Gorllewin Affrica. Gellir tynnu olew palmwydd gwerthfawr o hadau a mwydion fy ffrwyth. Yn aml caiff fforestydd eu torri i lawr fel bod modd tyfu fy mlanhigyn ar raddfa fawr, sydd yna'n cael ei ddefnyddio mewn siocled, pethau ymolchi, deunydd lapio ac ati.	**Plentyn ysgol yng Nghymru** Rwy'n 10 oed, ac rwy'n byw yng Nghymru gyda fy mam, fy nhad a fy mrawd. Mae llawer o'r pethau rydym yn eu defnyddio yn deillio o'r fforest law; celfi, olew palmwydd mewn bwyd, moddion a hyd yn oed rhannau mewn ffonau symudol. Rwyf am gael dyfydol hapus ac iach.